**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

| |
|---|
| **Cwestiwn 1** – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y deilliannau a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru? |
| Mae'n anodd dweud os ydynt yn llwyddo i gyfrannu at y deilliannau a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Cwestiwn pwysig ydyw "Beth yw'r canlyniad os nad yw'r Cynlluniau'n cael eu gwireddu?"<br><br>Mae hybu dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn bwysig iawn i UCAC. Mae'n sicr roedd ein profiad o ymateb i ymgynghoriadau am y cynlluniau pan y'u cyhoeddwyd yn un anodd iawn. Gyda 22 Awdurdod Lleol yn cyhoeddi'r cynlluniau ond, yn aml, dim eglurder ynglŷn â ble i ddarganfod y dogfennau perthnasol, ac angen ymatebion tua'r un pryd ar gyfer pob un, roedd yn llwyth gwaith anferth.<br><br>Yn sicr mae rhai o'r cynlluniau'n gosod gweledigaeth uchelgeisiol ac eraill heb fod digon uchelgeisiol. Ar adegau roedd yr uchelgais yn uchel ond roeddwn yn ymwybodol o heriau sylweddol o ran adnoddau dynol yn yr ALl penodol i wireddu'r weledigaeth honno a chyrraedd y targedau.<br><br>Erbyn hyn, hefyd, mae problemau cyllido trafnidiaeth i ddisgyblion dan 4 oed a dros 16 oed i addysg cyfrwng Cymraeg yn barod yn tanseilio dilyniant o un cyfnod i'r nesaf.<br><br>Gyda chostau sylweddol, e.e. £1.75 y dydd i dderbyn cludiant i'r ysgol golyga hyn gannoedd o bunnoedd y flwyddyn o fil i rieni am gludo un plentyn i'r ysgol. Does dim achos am hyn – ffordd ydyw i ALlau wneud arian – gan bod yn amlwg seddi gwag ar y bysiau'n barod i'w llenwi a dyw presenoldeb plant ychwanegol ddim yn codi cost y bws. |
| Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu ddigon, sut y gellir datrys hyn? |

Mae angen gwella dulliau cynllunio'r gweithlu addysg i sicrhau bod digon o weithwyr rhugl a hyderus ddwyieithog ar bob lefel, e.e. cynorthwywyr dysgu, athrawon, arweinwyr ysgol, ymgynghorwyr, arbenigwyr ADY, ac ati.
Sicrhau nad yw problemau cyllido trafnidiaeth yn effeithio ar ddewis rhieni ar gyfer y cam nesaf yn addysg eu plant. Beth bynnag yw'r sefyllfa gyllid, rhaid cyllido trafnidiaeth yn deg.
Gellir gwneud gwell defnydd o ganolfannau trochi i hwyrddyfodiad mewn rhai ALlau gan ddilyn patrwm presennol Gwynedd. Mae rhai ALlau eraill yn defnyddio canolfannau iaith ond gall fod yn fater o rwystredigaeth fawr i'r athrawon hynny sydd wrthi'n ceisio gweithio'n galed i sicrhau bod y plant yn dod yn rhugl pan maent yn eu gweld 1½ - 3 diwrnod yr wythnos yn hytrach na 5 diwrnod yr wythnos am dymor. Mae hyn yn rhwystr i ddatblygiad y plentyn fel person dwyieithog.

**Cwestiwn 2** – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol mewn awdurdodau lleol, neu a allant wneud hynny (er enghraifft, sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw am addysg Gymraeg)?

Na. Yn ein barn ni, nid yw'r cynlluniau'n sicrhau'r newidiadau angenrheidiol mewn ALl.

Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau newidiadau, neu na allant wneud hynny, sut y gellir datrys hyn?

Unwaith eto, rhaid buddsoddi mewn trafnidiaeth addas a buddsoddi yn y gweithlu. Mae newidiadau i bolisïau trafnidiaeth yn fygythiad i addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig lle mae'r disgyblion yn dod o gefndir difreintiedig. Mae problemau teithio yn rhwystr i addysg.

Rhaid buddsoddi yn y gweithlu a chodi sgiliau'r gweithlu. Mae cyrsiau sabothol ar gael ond niferoedd isel sydd yn cael lle ar y cyrsiau e.e. 6 athro a 6 cynorthwyydd y flwyddyn o ALl penodol. Weithiau mae unigolion yn awyddus ond oherwydd gofynion y cwricwlwm ysgol nid yw'r ysgol yn awyddus i'w rhyddhau - gofidiau am broblemau yn y byr dymor yn effeithio cynllunio ar gyfer yr hir dymor.
Rhaid i'r weledigaeth gael ei gyfleu i'r holl weithlu, ac, ar adegau mae

angen gwaith i newid agweddau. Mae angen sicrhau bod athrawon a’r bobl sy’n cael eu heffeithio gan y Cynlluniau'n hollol ymwybodol o'u cynnwys. Mae athrawon yn gweithio i gyrraedd y targedau ac nid ydyn nhw bob amser yn ymwybodol o'r cynnwys.

Mae'r ffaith mai dim ond yn electroneg mae'r wybodaeth yn cael ei gyhoeddi yn achosi mwy o broblem: pob peth ar gael neu'n cael ei rhannu'n electroneg. Faint sy’n derbyn y wybodaeth, yn agor yr e-bost, yn agor yr atodiad? Faint sy’n darllen ar sgrin (a rhoi'r gorau i hanner ffordd), faint sy’n argraffu dogfennau swmpus?

Mae cyfathrebu effeithiol yn bwysig dros ben.

**Cwestiwn 3** – Beth yw eich barn ar y trefniadau ar gyfer pennu targedau; monitro; adolygu; cyflwyno adroddiadau; cymeradwyo a chydymffurfio â gofynion Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (a rôl awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn)?

Tybiwn, gan ystyried bod 22 Cynllun Strategol o'r fath ei bod yn llwyth gwaith sylweddol yn yr ALl ac ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru.

Mae yna berygl bod ymarfer papur yn digwydd, sef un bydd yn caniatáu ticio bocsys bod rhywbeth ar gael ar bapur ond na fydd, mewn gwirionedd, yn cael effaith sylweddol ar y Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg o fewn yr ALlau.

Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys?

**Cwestiwn 4** – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn amlygu rhyngweithio effeithiol rhwng strategaeth addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill*?
(*er enghraifft, polisi cludiant ysgolion; rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain; y datganiad polisi – Iaith fyw:iaith byw; Dechrau’n

| Deg; polisi cynllunio)? |
|---|
| Cludiant: Gweler sylwadau uchod am newidiadau i bolisïau cludiant. Mae problemau teithio, hefyd, yn gallu bod yn her mewn mwy nag un ffordd. Yn ogystal â'r hyn a nodwyd yn barod gall lleoliad yr ysgol fod yn broblem o ran sicrhau bod disgyblion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau. Pan mae'n rhaid teithio i gael addysg Gymraeg gall pellteroedd fod yn anfantais. Pan fydd ymarferion ar ôl ysgol - dim gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus digon da ar gael, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig, i'w wneud yn hwylus i blant deithio yn dilyn digwyddiadau / ymarferion. Gan amlaf mae nifer sylweddol o blant sydd yn mynychu'r ysgol cyfrwng Saesneg agosaf at eu cartref yn gallu cerdded adref.<br>Pan fydd ysgolion a cholegau yn rhannu staff, neu blant yn symud campws oherwydd diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae hyn hefyd yn creu heriau.<br>Ysgolion yr 21ain Ganrif: mae ail drefnu addysg yn gallu bod yn broblem pan fydd mwy nag un ysgol yn dod at ei gilydd ac mae ysgol yn mynd yn ôl o ran categori. Dylai unrhyw ail gynllunio symud ysgol(ion) **ymlaen** o ran eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br><br>Mae angen gwneud mwy i addysgu rhieni, hefyd, o fanteision dwyieithrwydd (gweler argymhellion yr Athro Donaldson yn Dyfodol Llwyddiannus). Weithiau mae ALl yn symud ysgol ymlaen yn ieithyddol wrth aildrefnu ond yn wynebu gwrthwynebiad mawr gan rai rhieni.<br><br>Polisi cynllunio tai: rhaid edrych ar y polisi cynllunio ond mae'n ymddangos nad yw Llywodraeth Leol na Llywodraeth Cymru'n rhoi sylw i'r mater yma yng nghyd-destun yr effaith ar ddarpariaeth addysg a'r iaith Gymraeg. Mae angen ystyried goblygiadau rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr o dai (yn eu cannoedd) ar yr ysgolion yn yr ardal ac ar yr iaith Gymraeg. Beth am allu'r ALl i ddarparu addysg drochi, ôl ofalaeth a gweithlu addysg sydd yn gallu darparu dilyniant ieithyddol? Oes, mae angen tai fforddiadwy ar bobl |

yn ein cymunedau ond mae llawer o'r tai sydd yn cael eu hadeiladu nawr yn dai 4-5 ystafell wely sydd yn targedu teuluoedd.

Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys?

Sicrhau/ diogelu cyllid ar gyfer trafnidiaeth gan gynnwys trafnidiaeth i addysg cyfrwng Cymraeg cyn 4 oed ac ôl 16 oed.
Sicrhau bod rhaid i ALl ystyried yr effaith ar yr iaith Gymraeg, darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg drochi wrth ystyried ceisiadau cynllunio tai.
Sicrhau bod pob cynllun ad-drefnu ysgolion yn dangos symud ymlaen o ran y continwwm ieithyddol.

**Cwestiwn 5** – Yn eich barn chi, a yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg i bob disgybl, gan gynnwys er enghraifft, disgyblion cynradd / uwchradd; plant o gartrefi incwm isel?

Na. Credwn nad yw pob plentyn yn cael mynediad teg at yr iaith Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r cyfleoedd yn amrywio yn dibynnu ar yr ALl ac felly nid oes cysondeb ar draws Cymru. Lle mae problemau o ran cyllid am drafnidiaeth mae hyn yn fwy tebygol o effeithio plant o gartrefi incwm isel a'u hamddifadu mwy o'r hawl i addysg cyfrwng Cymraeg.

Os ydych o'r farn nad yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg, sut y gellir datrys hyn?

Tybiwn fod y broses o greu'r Cynllun ac yna o fonitro, adolygu, cyflwyno adroddiadau, cymeradwyo a chydymffurfio â gofynion yn waith sylweddol ac yn waith enfawr o ran monitro pob cynllun.
Credwn ei fod yn bwysig cael Cynllun sydd yn ymrwymo pob ALl i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth o ran y Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg, ond mae'n bwysig bod mwy o sylw'n cael ei roi'n genedlaethol ac yn lleol i gynllunio'r gweithlu addysg.
Mae hefyd angen ystyried nawr goblygiadau adroddiad yr Athro Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus* ac Adroddiad Yr Athro Sioned Davies *Un Iaith i Bawb*, a'u heffaith ar weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

| |
|---|
| Mae'r cwestiwn yn codi hefyd, beth yw'r cam nesaf pan fydd ALl yn methu cyflawni'r hyn a nodir yn y cynllun. |
| **Cwestiwn 6** – Os byddai'n rhaid ichi wneud un argymhelliad i Lywodraeth Cymru o'r holl bwyntiau rydych wedi'u nodi, beth fyddai'r argymhelliad hwnnw? |
| Mae angen sicrhau bod addysg drochi o'r safon uchaf ar gael ym mhob ALl yn dilyn patrwm ALl Gwynedd.<br>Credwn ei fod yn bwysig mai nid ymarfer papur yn unig yw'r Cynlluniau er mwyn caniatáu i ALl a Llywodraeth Cymru dicio bocsys am yr iaith. |
| **Cwestiwn 7** – A oes gennych unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech eu codi na soniwyd amdanynt yn y cwestiynau penodol? |
| |